Educ8 GROUP



# Lefel 4

# Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Mae hwn yn gymhwyster lefel uwch sydd wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol ym maes Gofal Plant ac wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sy'n cael eu cyflogi yn y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Bydd angen i ddysgwyr sy'n ymgymryd â'r cwrs hwn fod mewn swydd uwch neu, os ydynt yn warchodwr plant, gallu dangos eu bod yn cefnogi eraill sydd â llai o brofiad. Bydd angen i chi hefyd feddu ar gymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD) a bod dros 19 oed. Mae'r cwrs yn seiliedig ar wybodaeth, a gall dysgwyr gwblhau cymhwyster Lefel 4 cyn iddynt gael swydd reoli.

**Buddion i'r dysgwr**

- Hyfforddwyr profiadol sydd ag ystod eang o brofiad yn y diwydiant gofal plant
- Mae pob Hyfforddwr CCPLD wedi cwblhau rhaglen ddatblygiad proffesiynol helaeth er mwyn cyflwyno'r safonau hyfforddi newydd yn y diwydiant
- Moodle Dysgwr wedi'i deilwra i'ch cefnogi drwy gydol eich cymhwyster, ynghyd â dull dysgu cyfunol sy'n cynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ystafelloedd clyfar rhithwir ac arsylwadau
- Cyfleoedd i symud ymlaen i rolau uwch yn y sector
- Llwybrau hyblyg i hyrwyddo meysydd arbenigol, megis gweithio gyda theuluoedd ac anghenion dysgu ychwanegol

**Buddion i'r cyflogwr**

- Bydd dysgwyr mewn swydd uwch yn meddu ar wybodaeth uwch mewn maes arbenigol o fewn y sector Gofal Plant
- Ystod o unedau i deilwra'r cymhwyster i anghenion eich busnes
- Hyfforddiant o ansawdd gyda gradd Estyn o dda/rhagorol


THE UK'S TOP 5 BEST LARGE COMPANIES TO WORK FOR 2025
EDUCATION & TRAINING'S #1 BEST ORGANISATION TO WORK FOR 2025
WORLD CLASS TO WORK FOR 2025
INVESTORS IN PEOPLE We invest in people Standard
City & Guilds A City & Guilds Group Business
Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Sgiliau Hanfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i godi lefelau Sgiliau Hanfodol ledled Cymru. Mae cymwysterau Cyfathrebu, Llythrennedd Digidol a Chymhwyso Rhif yn elfen annatod o'r fframweithiau prentisiaethau a ariennir.

Fel arfer, caiff y rhain eu cyflwyno drwy weithdai yn un o'n canolfannau a byddant yn cael eu trefnu ymhell ymlaen llaw. Os ydych wedi cwblhau Sgiliau Hanfodol yn flaenorol neu'n gallu darparu tystiolaeth addas, megis tystysgrifau TGAU neu gymwysterau tebyg, efallai y cewch eich eithrio rhag cwblhau'r elfen hon o'r cymhwyster.

| **Sgiliau Hanfodol** | |
|---|---|
| Bydd angen i ddysgwyr cwblhau: | |
| Cymhwyso Rhif | Lefel 2 |
| Cyfathrebu | Lefel 2 |

# Trosolwg o'r Cymhwyster

Er mwyn ennill cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, rhaid i ddysgwyr ennill o leiaf **60 credyd i gyd**.

Er mwyn ennill y cymhwyster, rhaid i ddysgwyr ddewis un o'r tri llwybr canlynol:

- Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau magu plant
- Gweithio gyda phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN)
- Adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Er mwyn ennill cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau magu plant), rhaid i ddysgwyr ennill o leiaf 64 credyd o'r grŵp Gorfodol.

Sylwer:

- Mae angen ymweliadau misol gan yr hyfforddwr, a gellir darparu ymweliadau neu gymorth ychwanegol os oes ange
- Gall sesiynau gyda'r hyfforddwr bara hyd at ddwy awr a gellir eu cynnal wyneb yn wyneb yn eich gweithle neu o bell gan ddefnyddio llwyfannau ar-lein
- Bydd y cymhwyster yn cymryd 24 mis i'w gwblha

## Unedau Hanfodol

| Teitl Uned | Gwerth Credyd | Oriau Dan Arweiniad |
|---|---|---|
| Arwain ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn | 22 | 115 |
| Sgiliau astudio | 8 | 30 |

## Llwybrau

| Teitl Uned | Gwerth Credyd | Oriau Dan Arweiniad |
|---|---|---|
| Adnabod a Chefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 30 | 145 |
| Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCY) | 34 | 170 |
| Gweithio gyda Theuluoedd | 34 | 150 |

**Dilyniant**

Ar ôl cwblhau'r cymhwyster, gallech symud ymlaen i:

- Gall dysgwyr symud ymlaen i gymhwyster Lefel 4/5 Arweinyddiaeth a Rheolaeth. .